# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 9fed Medi 2019.

Presennol: Henry Hughes, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes, Richard Williams, William Owen, John Davies, Humphrey Williams.
Ymddiheuriadau: Seimon Glyn

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. **Archwyliad Allanol –** Dywedodd y Clerc for BDO wedi cwblhau'r archwyliad a'i bod yn aros am yr adroddiad.

b. **Mabwysiadu Cofrest Presenoldeb** – Danghosodd y Clerc y cofrestr, bydd hon yn cael ei llenwi bob mis o hyn ymlaen.

c. **Lon Rhos y Llan, Tudweiliog** – yn dilyn cwyn Ceri Meredydd ysgrifenodd y Clerc at yr adran ffyrdd. Cafodd ateb gan swyddog yn gofyn os oedd bosib cyfarfod ar y safle i drafod y broblem. Penderfynwyd gofyn i Ceri Meredydd os y byddai'n fodlon cyfarfod y swyddog, os ddim yna bydd y Clerc yn cyfarfod y swyddog.

ch. **Anibyniaeth Cymru** – cynigiodd y Cadeirydd drafod y mater yma eto, ond penderfynwyd i'w adael am y tro.

d. **Cwyn tratorau yn gor yrry a gwartheg ar lon Treferwin** – Bu'r Clerc mewn cysylltiad a Iwan ap Trefor, y cam cyntaf meddai'r swyddog fydd gosod meserudd cyflymder ym mhentref Llaniestyn, pan fydd y wybodaeth yma wedi ei gasglu bydd y swyddog yn dod atom i drafod beth ellir ei wneud nesaf ynglyn a'r ddwy gwyn. Penderfynwyd symud ymlaen i osod y meserudd ger Bell View Llaniestyn.

4. **Gohebiaethau:**

a. Derbynwyd gwahoddiad i gynhadledd Prydain Digarbon ym Mhorthmeirion – cafodd y Cynghorwydd gyfle i'w ddarllen.

b. Derbynwyd anfoneb gan ico am £40.00 – pasiwyd i'w dalu.

c. Derbynwyd cylchlythyr gan Eluned Morgan – cafodd y Cynghorwyd gyfle i'w ddarllen.

ch. Cais C19/0746/46/LL Trefgraig Isaf, Rhoshirwaen – dim sylwadau

d. Cais C19/0766/46/LL Tir ger Tan y Grisiau, Garnfadryn - cefnogi

5. **Unrhyw fater arall**

a. Cafwyd cais am ddrych ar clawdd pen lon Ty Bwlcyn Dinas, bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.

b. Cafwyd cwyn fod cwn yn poeni ymwelwyr sy'n campio yn Llangwnnadl – penderfynwyd mai nid mater i'r Cyngor Cymuned oedd hyn ond cyfrifoldeb perchennog y maes gwyliau.

c. Cafwyd negas fod pryder ynglyn a dyfodol mynwent Tudweiliog – bydd y Clerc yn cysylltu hefo Susan Griffith gan adrodd yn ol i'r Cyngor Cymuned mis nesaf.

CYNHELIR Y CTFARFOD NESAF AR 14eg Hydref 2019
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh